

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda,
Dental Excellence**

3 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Dental Excellence, 2 Heol yr Orsaf, Penfro SA71 4AH, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 3 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Dental Excellence yn darparu gwasanaethau i oddeutu 8,000 o gleifion yn ardal Penfro. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Dental Excellence yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un hylenydd, a thair nyrs/derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Corynau neu arosodiadau yr un diwrnod
- Dannedd gosod
- Triniaethau cosmetig
- Gwynnu dannedd
- Mewnblaniadau

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd mae Dental Excellence yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Yn ddiethriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau trwy osod blwch awgrymiadau yn y dderbynfa.

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Gwelsom fod safon y cyfleusterau clinigol yn uchel, ac er bod angen gwneud gwelliannau bach, roedd safon y cofnodion yn dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff, a dadheintio.

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, er bod angen sefydlu proses ar gyfer monitro gofynion staff yn barhaus. Roedd trefniadau ar gyfer cwyno ar gael, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau, ond roedd angen eu mireinio.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau trwy osod blwch awgrymiadau yn y dderbynfa.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 20 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Gwnaethom siarad hefyd ag un claf tra ein bod ni yn y practis. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng un mis a 25 o flynyddoedd.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a bod y staff wedi estyn croeso iddynt. Nid oedd unrhyw un wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rwy'n bles iawn gyda'r gwasanaeth"

"Cefais ofal ardderchog – diolch"

"Rwy'n cael croeso bob amser, ac mae'n brofiad cyfforddus a braf"

"Perffaith. Gwasanaeth anhygoel gan bob aelod o'r staff. Mewn argyfwng, cefais fy ngweld a'm cynorthwyo gan aelodau o'r staff. Felly diolch i chi. Daliwch ati gyda'r gwaith anhygoel"

"Gwasanaeth ardderchog. Dydw i erioed wedi cael unrhyw broblemau, a byddaf yn parhau i ddefnyddio'r ddeintyddfa hon"

"Mae'r holl staff yn gwrtais a phroffesiynol, ac mae'n bleser dod yma"

"Mae'r holl staff yn gwrtais a gofalgarn iawn"

"Gwasanaeth o'r radd flaenaf"

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen

arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau'n cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth da iawn a chyngor clir”

“Cefais esboniad clir o'r driniaeth”

Roedd deunaw o gleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis a chanfod bod gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau y tu allan i oriau wedi'i recordio er gwybodaeth i gleifion. Dywedodd cleifion hefyd fod y gwasanaeth neges destun yn dda.

Roedd y practis ar agor ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Roedd apwyntiadau brys ar gael gyda'r nos ar ddydd Mercher a dydd Iau. Y swyddfa'n unig oedd ar agor ar ddydd Mercher a dydd Iau rhwng 9am a 3.30pm.

Nododd bron i draean o gleifion yn yr holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, pe byddai angen. Gallai hyn fod oherwydd nad oedd y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn y man aros, yn y taflenni gwybodaeth i gleifion, nac ar y wefan. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon os oedd angen.

Gwelsom flwch awgrymiadau er mwyn i gleifion roi adborth i'r practis. Roedd y practis wedi cynnal holiadur ynglŷn â bodlonrwydd cleifion hefyd. Nid yw'r staff yn cofnodi adborth anffurfiol ac adborth ar lafar gan y cleifion ar hyn o bryd. Byddai hyn yn galluogi'r practis i ystyried tueddiadau ac atal uwchgyfeirio unrhyw bryderon o bosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu cofnod canolog ar gyfer cofnodi adborth anffurfiol ac adborth ar lafar.

Roedd cofnodion y cleifion a'n holiaduron yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau, manteision a thriniaethau amgen er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd pob claf hefyd yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig.

Roedd amrywiaeth bach o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Ni welsom unrhyw wybodaeth ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion, ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis. Fodd bynnag, mae angen ei ddatblygu i gynnwys prisiau triniaethau a'r broses pryderon, gan gynnwys cyfeiriad AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i daflen wybodaeth y practis gynnwys y wybodaeth a nodir yng nghanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd gan y practis wefan hefyd, a oedd yn rhoi canllawiau clir a gwybodaeth i gleifion. Roedd y wefan yn cael ei datblygu ar y pryd, a gwnaethom drafod y gofyniad i fodloni Canllawiau Moesegol ar Hysbysebu 2012 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Gwelsom fod safon y cyfleusterau clinigol yn uchel, ac er bod angen gwneud gwelliannau bach, roedd safon y cofnodion yn dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff, a dadheintio.

Offer/dogfennau radiograffeg

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phrofion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig a'u bod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar gyfer cyfarpar radiograffig. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau bod cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a'i fonitro'n barhaus.

Dadebru a chymorth cyntaf

Gwelsom fod siartiau llif manwl ar gael a oedd yn amlinellu sut i ymdrin â gwahanol argyfyngau meddygol; fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu storio gyda'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys. Gwnaethom awgrymu datblygu system lle cedwir y siart lif berthnasol a'r meddyginiaethau gyda'i gilydd. Roedd y staff yn wybodus ynglŷn â'r hyn ddylid ei wneud pe byddai argyfwng meddygol, ond nid oedd polisi dadebru cyfredol wedi'i sefydlu er mwyn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob aelod o'r staff. Nododd y staff y byddai hyn yn cael ei wneud ar unwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisi dadebru'n cael ei sefydlu.

Roedd tri aelod o staff wedi'u penodi'n swyddogion cymorth cyntaf ar y safle, ac roeddent wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Roedd cyfarpar dadebru priodol a threfnus ar gael i'r staff pe byddai argyfwng meddygol (llewyg). Ar adeg yr arolygiad, roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn

yn golygu bod staff wedi eu hyfforddi a bod y cyfarpar ganddynt i reoli argyfyngau meddygol.

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u storio'n drefnus mewn lleoliad da a diogel, ond nid oedd y siartiau llif mewn achosion brys (sy'n rhoi canllawiau yn ystod argyfyngau) yn cael eu storio gyda nhw. Mae hyn wedi'i drafod yn y paragraff blaenorol. Nid oeddem yn gallu gweld unrhyw gyffuriau i'w defnyddio pe byddai claf yn cael pwl o asthma. Dylai hyn gael ei gynnwys yn y blwch cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro. Gwelsom fod llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw'n rhydd mewn cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi er mwyn osgoi mynediad heb ganiatâd. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn. Cafwyd trafodaeth â rheolwr y practis ynglŷn â datblygu ffurflen ar gyfer cofnodi unrhyw gyffuriau sy'n cael eu rhoi mewn argyfwng, a allai gael eu rhoi i weithwyr meddygol proffesiynol (os oes angen). Roedd hyn yn dangos bod y practis yn flaengar ei feddwl ac yn agored i ffyrdd newydd o weithio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau sy'n ofynnol mewn achosion brys ar gael, a'u bod yn cael eu cadw yn y blwch cyffuriau brys.

Rhaid i'r practis storio presgripsiynau mewn amgylchedd diogel pan nad yw'r clinigydd yn yr ystafell driniaeth.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)

Roedd gan y practis un ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, ac er ei bod yn fach iawn, roedd yn bodloni'r safonau a nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1). Roedd staff yn defnyddio cynwysyddion dan sêl briodol er mwyn cludo offer rhwng yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd sinciau golchi dwylo neilltuedig ar gael, ac roedd staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol. Roedd pob offeryn yn cael ei fagio ar ôl iddo gael ei sterileiddio, â dyddiad prosesu arno. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio hyn, gydag amserlenni addas wedi eu nodi. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom nad oedd pob aelod o staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio gael hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud.

Gwelsom fod llyfrau cofnodi ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad Cymdeithas Ddeintyddol Prydain o'i ofynion rheoli heintiau. Er bod cynnal archwiliadau'n arfer da, nid yw canllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod offer yn ddigon glân a diogel i'w defnyddio ar gleifion. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ddefnyddio dull archwilio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn y dyfodol.

Gwelsom fod y practis yn cynnig triniaethau mewnbhaniadau, ond nid oedd uned sugno ar gyfer sterileiddio offer ar gael. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod sugnydd priodol ar gyfer sterileiddio offer mewnbhaniadau ar gael. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau arfer diogel.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd niferoedd digonol o offer deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi ei storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom gyflenwad digonol o eitemau untro a chyfarpar diogelu.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol

eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon dda iawn.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd safon cofnodion y cleifion yn y practis yn dda, ac er bod y cofnodion radiograffau (pelydr-X) angen sylw, roedd y cofnodion ar y cyfan yn drylwyr ac roeddent yn nodi'r gofal a'r triniaethau a dderbyniwyd yn fanwl.

Gwelsom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu diweddarau ym mhob ymweliad er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu cofnodi, ac er mwyn ymateb iddynt. Roedd y practis yn defnyddio system cofnodion papur, lle'r oedd hanesion yn cael eu gwirio gan staff y dderbynfa, a'u llofnodi gan gleifion. Hysbyswyd y practis bod angen i'r deintydd eu cydlofnodi.

Nid oedd hanesion cymdeithasol cleifion yn cael eu cofnodi ar y pryd. Byddai hyn yn amlygu risgiau posibl o ran iechyd y geg ac yn galluogi ymyrraeth gynnar. Gwnaethom awgrymu y gellid cofnodi'r hanesion cymdeithasol a meddygol ar yr un ffurflen.

Gwelsom fod y deintydd yn casglu ac yn cofnodi cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth, ac yn cofnodi cynlluniau triniaeth a'r trafodaethau ynglŷn â'r dewisiadau o ran triniaeth.

Mae angen gwella'r dogfennau radiograffau yn y meysydd canlynol:

- Cofnodi'r cyfiawnhad dros sganiau pelydr-X
- Cofnodi'r radiograffau'n fwy manwl
- Nid oedd system ar gyfer graddio/archwilio radiograffau (er bod y practis yn defnyddio radiograffau digidol a bod y safon yn uchel)
- Didoli cofnodi archwiliadau mewn-eneuol oddi wrth archwiliadau all-eneuol yn y cofnodion deintyddol
- Nid oedd y siartiau'n cael eu diweddarau'n gyson ar gyfer pob triniaeth
- Nid oedd y dyddiad geni wedi'i nodi ar rai nodiadau cleifion

Fodd bynnag, ar y cyfan, rhoddwyd sicrwydd i ni fod ansawdd y cofnodion a'r sganiau pelydr-X o safon uchel iawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella cadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd.

Roedd y practis wedi trefnu rhaglen archwilio clinigol gyda phractis cyfagos, sy'n arfer nodedig.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, er bod angen sefydlu proses ar gyfer monitro gofynion staff yn barhaus. Roedd trefniadau ar gyfer cwyno ar gael, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau, ond roedd angen eu mireinio.

Staff

Roedd un prif ddeintydd a oedd yn berchen ar ddau bractis: Dental Excellence a phractis arall yn Lloegr. Triniaethau preifat yn unig oedd yn cael eu cynnig yn y practis. Nid oedd rheolwr ar y practis, ond roedd gan y tîm staff swyddi penodol, ac roeddent yn gweithio'n ddi-dor fel tîm. Roedd dau ddiwrnod o'r wythnos wedi'u neilltuo ar gyfer dyletswyddau gweinyddol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig, ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan ei gilydd a'r prif ddeintydd.

Roedd y deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddo gontractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae hyn yn arfer nodedig oherwydd dim ond ar gyfer deintyddion y mae'n ofynnol dan y rheoliadau i gael tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom fod tystysgrif y deintydd yn cadarnhau ei gofrestrriad wedi'i harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol dan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer holl aelodau'r staff clinigol, ac roedd gan bob un ohonynt yswiriant indemniad ar gyfer eu gwaith clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom ffeil gynefino yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, ond nid oedd wedi'i defnyddio ar y pryd oherwydd nad oedd staff newydd wedi dechrau yno ers i'r pecyn gael ei ddatblygu.

Ni chofnodwyd unrhyw gyfarfodydd staff ffurfiol, ond dywedodd y staff wrthym y cynhelir cyfarfodydd ar sail ad hoc ac yn anffurfiol. Gwnaethom drafod cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol fel ffordd o gofnodi'n ffurfiol gwersi a ddysgwyd, ac i raeadru gwybodaeth berthnasol, megis newidiadau o ran polisïau a gweithdrefnau.

Nid oedd system ar waith ar gyfer arfarniadau ffurfiol. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff wrth iddynt ystyried eu gwaith eu hunain, ac i nodi unrhyw anghenion cymorth ac anghenion o ran datblygiad proffesiynol. Mae'n rhaid gweithredu'r rhain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd.

Amddiffyn plant ac oedolion

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant wedi'i sefydlu, er nad oedd hwn yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer gwneud atgyfeiriadau.

Roedd staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd polisi wedi'i sefydlu, a gwnaethom argymhell ychwanegu manylion cyswllt lleol, pe byddai angen i staff wneud atgyfeiriad.

Cwynion

Roedd gweithdrefn gwyno a oedd yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer cleifion preifat. Nid oedd hon yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r polisi cwyno gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Adran 15.

Roedd cwynion yn cael eu cadw'n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi hefyd, ond roedd y rhain yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom argymhell cofnod canolog ar gyfer pryderon llafar/anffurfiol er mwyn amlygu tueddiadau yn gynnar. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis ffurfioli ei ddull o adolygu cwynion yn eu cyfanrwydd dros amser, er mwyn canfod tueddiadau a phatrymau fel ffordd ychwanegol o wella'r gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn codi pryderon gyda'r deintydd. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Polisiâu a gweithdrefnau

Yn gyffredinol, gwelsom fod y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, ond roedd rhai ohonynt yn cynnwys enw a chyfeiriad

y cwmni blaenorol o hyd. Gwnaethom gynghori'r practis i adolygu'r dogfennau a chywiro'r wybodaeth. Nid oedd unrhyw bolisi wedi'i sefydlu ar gyfer preifatrwydd ac urddas. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol. Roedd tystysgrifau a chofnodion ar waith ar gyfer gwaith gynnal a chadw hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod polisi preifatrwydd ac urddas ar gael.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli ar gyrion Penfro. Roedd yr adeilad wedi'i addasu i safon uchel iawn. Roedd y practis wedi'i osod ar un llawr, ac roedd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd dwy ystafell driniaeth ar gael ar y pryd, ac roedd trydedd ystafell driniaeth bron wedi'i chwblhau. Roedd maes parcio bach y tu cefn i'r practis.

Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn – y tu mewn a'r tu allan. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd yn ddigon golau, cynnes, glân a thaclus, ac roedd digon o awyr iach.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Fodd bynnag, nid oedd arwydd y tu allan i'r practis yn dangos enw a chymwysterau'r deintydd. Roedd oriau agor a rhifau cyswllt y gallai'r cleifion eu ffonio mewn argyfwng yn weladwy o'r tu allan. Roedd rhestrau prisiau yn cael eu harddangos ar y ddesg yn y dderbynfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i enw a chymwysterau'r deintydd fod yn weladwy y tu allan i'r practis.

Roedd toiled ar wahân i'r staff. Roedd y toiledau i'w gweld yn lân, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd maint y man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd gan staff y dderbynfa ddealltwriaeth dda o sut i gynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac ychydig o bosteri a thafleuni hyrwyddo iechyd.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol wedi'u sefydlu er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd gohebiaeth a chofnodion cleifion ar bapur wedi'u storio'n ddiogel dan glo. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth am y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Dental Excellence yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Dental Excellence

Dyddiad yr arolygiad: 3 Mai 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Tudalen 7	Dylai'r practis ddatblygu cofnod canolog ar gyfer cofnodi adborth anffurfiol ac adborth ar lafar. [Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.7]	Rydym wedi creu cofnod canolog, ac mae'n cael ei gadw yn y dderbynfa.	PK	Cwblhawyd
Tudalen 7	Mae'n rhaid i daflen wybodaeth y practis gynnwys y wybodaeth a nodir yng nghanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. [Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.2, 5.1.5]	Rydym ar hyn o bryd yn diweddarau taflen wybodaeth y practis i gynnwys y wybodaeth hon.	PK	Diwedd Awst
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 9	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisi dadebru'n cael ei sefydlu. [Safonau Iechyd a Gofal 5.1; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6, 6.6.6]	Rydym wedi cwblhau polisi dadebru.	PK	Cwblhawyd
Tudalen 10	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau sy'n ofynnol mewn achosion brys ar gael, a'u bod yn cael eu cadw yn y blwch cyffuriau brys. [Safonau Iechyd a Gofal 2.6; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3]	Rydym bellach yn cadw'r holl gyffuriau/offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn yr ystafell ddadheintio, ynghyd â'r siartiau llif.	PK	Cwblhawyd
Tudalen 10	Rhaid i'r practis storio presgripsiynau mewn amgylchedd diogel pan nad yw'r clinigydd yn yr ystafell driniaeth. [Safonau Iechyd a Gofal 2.6; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.1]	Mae presgripsiynau bellach yn cael eu cadw mewn cwpwrdd ffeilio dan glo.	PK	Cwblhawyd
Tudalen 11	Mae'n rhaid i'r staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio gael hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud. [Safonau Iechyd a Gofal 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 3]	Dilynodd Janette gwrs croes-heintio ym mis Tachwedd 2013, ac rydym ar hyn o bryd yn chwilio am gyrsiau i'n haelodau staff eraill eu mynychu.	PK	Diwedd Rhagfyr

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 12	Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella cadw cofnodion yn y meysydd a amlygwyd. [Safonau Iechyd a Gofal 3.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14.2]	Mae hyn yn cael ei drefnu i'w gynnal ym mis Medi.	PK	Diwedd Medi
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen 15	Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael cynnig arfarniadau rheolaidd. [Safonau Iechyd a Gofal 7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1]	Mae'r staff yn cael arfarniadau ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cael ei ddiweddarau bob chwe mis.	PK	Diwedd Awst
Tudalen 15	Mae'n rhaid i'r polisi cwyno gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Adran 15.	Rydym yn diweddarau ein polisi cwyno ar hyn o bryd.	PK	Diwedd Awst
Tudalen 16	Dylai fod polisi preifatrwydd ac urddas ar gael. [Safonau Iechyd a Gofal 4.1]	Rydym bellach wedi cwblhau a sefydlu'r polisi hwn.	PK	Cwblhawyd
Ansawdd yr Amgylchedd				
Tudalen 17	Mae'n rhaid i enw a chymwysterau'r deintydd fod yn weladwy y tu allan i'r practis. [Safonau Iechyd a Gofal; Cyngor Deintyddol	Rydym ar hyn o bryd yn cael dyfynbrisiau am arwydd y tu allan i'r adeilad.	PK	Diwedd Medi

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Cyffredinol 6.1.5]			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Pakavach Leghaei

Teitl: Dr

Dyddiad: 29 Gorffennaf 2015